



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Estyn Cosbau Gweinyddol Ariannol (FAPs) o fewn Pysgodfeydd

Cynigion i estyn y trefniadau presennol ar gyfer rhoi Cosbau Gweinyddol Ariannol am droseddau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) i gynnwys troseddau pysgodfeydd domestig.

Dyddiad cyhoeddi: 5 Rhagfyr 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Ionawr 2019

Trosolwg

Ymgynghoriad ar gyfer Cymru'n unig yw hwn sy'n gosod allan gynigion i:

Estyn y cynllun Cosbau Gweinyddol Ariannol presennol i gynnwys troseddau pysgodfeydd domestig.

Cynyddu'r Gosb Weinyddol Ariannol fwyaf am droseddau'r CFP a domestig o £4,000 i £10,000.

Bydd y mesurau hyn yn cysoni rheoliadau Cymru â'r rheini yn rhannau eraill y DU.

Trwy sefydlu cynllun FAP estynedig yng Nghymru, bydd modd delio â'r holl droseddau sy'n ymwneud â physgodfeydd mewn ffordd hyblyg, cymesur a chyson, a bydd y cynllun yn gweithredu fel ataliad ychwanegol i'r rheini sy'n ystyried tramgwyddo deddfwriaeth pysgodfeydd domestig.

O dan rai amgylchiadau, gellid cynnig FAP i berson yn lle ei erlyn ond bydd yn cadw'r opsiwn i ddewis cael y llysoedd i ddelio â'r mater.

Sut i ymateb

Gellir cyflwyno ymatebion drwy e-bost, y post neu ar ffurflen e-bost ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau.

Dylid anfon ymatebion drwy e-bost/post i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn 28 Ionawr 2019 fan hwyraf. Rhowch 'ymgyngoriad FAP' ym mlwch pwnc eich e-bost.

Ebost: marineandfisheries@gov.wales

Trwy'r post: Michelle Billing
Ymgynghoriad FAP
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 4UR

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Michelle Billing
Ymgynghoriad FAP
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 4UR

Ffôn: 0300 062 2215

e-bost: marineandfisheries@gov.wales

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys**Tudalen**

Adran A	Cyflwyniad	6
Adran B	Trosolwg o Gynllun FAP y CFP	6
Adran C	Estyn Cynllun FAP i Ddeddfwriaeth Pysgodfeydd Domestig	9
Adran D	System Dalu	13
Atodiad 1	Ffurflen ymateb	15
Atodiad 2	Categoriâu cosbau troseddau a rhestr o'r troseddau	18


Adran A: Cyflwyniad

1. Ymgynghoriad ar gyfer Cymru yn unig yw hwn sy'n gosod allan cynigion i estyn cynllun y FAP am droseddau'r CFP i gynnwys cosbau am dramgwyddo rheolau pysgodfeydd domestig gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael o dan Adran 294 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.
2. Cafodd cynllun FAP i ddelio â mân-droseddau'r CFP ei roi ar waith yng Nghymru yn 2008 yn unol â Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol) (Hysbysiadau Cosb) 2008 (OS 2008/984). Ers hynny mae Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU wedi cynnal adolygiadau o'u cynlluniau eu hunain ac wedi'u diweddarau yn ôl y gofyn i gynnwys troseddau domestig.

Adran B: Trosolwg o Gynllun FAP y CFP

3. Yr egwyddorion dros gynnig FAP am droseddau pysgodfeydd y CFP yw:
 - er mwyn gallu rhoi cosbau'n gynt ac yn fwy effeithiol
 - er mwyn bod yn fwy tryloyw
 - er mwyn lleihau costau ac ansicrwydd i bysgotwyr
 - er mwyn cynnig ffordd o ddelio â mân-droseddau pysgotwyr heb fynd i'r llysoedd
 - er mwyn darparu ffordd gyson o ddelio â thramgwyddau
4. Yn ogystal â'r egwyddorion uchod, cafodd cynllun y FAP ei greu i sicrhau bod y cosbau'n gyson ac yn gymesur â difrifoldeb y drosedd.
5. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y broses ar hyn o bryd ar gyfer gwneud penderfyniadau gorfodi mewn cysylltiad â throseddau'r CFP.

Ffigur 1: Proses orfodi bresennol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin



6. Bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i bob tramgwydd y caiff Swyddog Gorfodi Morol¹(MEO) hyd iddo.
7. Dyma'r prif feini prawf y bydd Prif Swyddog y Bysgodfa yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cynnig FAP:
 - Iefel y tramgwydd h.y. difrifol neu fân
 - trosedd eildro: - a oes trosedd wedi'i chyflawni o'r blaen - gall hynny olygu nad oes angen hysbysiad cosb. Mae trosedd eildro yn golygu bod y troseddwr wedi'i gael yn euog o'r blaen, neu wedi cael dau neu fwy o hysbysuadau cosb.
 - troseddau eraill: - wedi'u darganfod yr un pryd â'r drosedd dan sylw a natur y troseddau hyn. Gallai hyn ychwanegu at ddifrifoldeb y drosedd gyfan.
 - gwerth y ddalffa: - pan nad yw'r tramgwydd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ei atgyfeirio ar gyfer ei erlyn. At y dibenion hyn, ystyrir bod trosedd yn ddigon difrifol fel arfer pan fydd yr enillion ariannol posib yn fwy na'r gosb fwyaf y gellir ei rhoi. Mae enillion ariannol yn golygu gwerth y ddalffa anghyfreithiol yn ôl prisiau cyfartalog yr wythnos flaenorol yn y farchnad fwyaf priodol. Gallai'r farchnad honno fod y tu allan i'r DU os yw'r cwch yn glanio ei ddalffa'n rheolaidd dramor.

¹Ym Mhrydain, gall MEO olygu Swyddog Pysgodfeydd Môr.

- maint y ddalfa: - pan nad yw maint y ddalfa'n ddigon mawr i gyfiawnhau ei atgyfeirio ar gyfer ei erlyn. Mae hon yn ffactor berthnasol yn achos troseddau sy'n ymwneud â sgil-ddalfa, ond gall fod yn ystyriaeth mewn troseddau eraill hefyd.
 - difrodi'r amgylchedd/ecosystem: - gan gynnwys a yw'r rhywogaeth dan sylw yn destun mesurau adfer stoc.
8. Bydd Prif Swyddog y Bysgodfa'n ystyried tystiolaeth yr MEO ar sail y meini prawf uchod ac yn ystyried a fyddai erlyniad troseddol o fudd i'r cyhoedd. Os oes tystiolaeth bod y troseddau'n bodloni'r meini prawf am FAP, gellir cynnig FAP yn lle rhoi rhybudd ysgrifenedig neu fynd â'r achos trwy'r llysoedd.
9. Ni chaniateir cynnig FAP am y troseddau canlynol. Rhaid eu herlyn.
- peidio â chydymffurfio â gofynion yr MEO neu ei rwystro rhag eu cyflawni
 - ymosod ar yr MEO neu'r sawl sy'n ei helpu, neu eu bygwth
 - troseddau yn erbyn stociau o dan fesurau arbennig neu gynllun adfer neu reoli. Os nad oes cosb bellach yn gymwys, caiff trwydded y pysgotwr ei hatal yn awtomatig.
 - cyflawni'r un drosedd am y trydydd tro neu fwy
10. Os cynnigir FAP yn lle erlyniad troseddol, nid oes rheidrwydd ar y troseddwr i'w derbyn os byddai'n well ganddo i lys ddelio â'r mater.
11. Mae'r Cosbau Gweinyddol Ariannol a gynnigir am drosedd gyntaf yn amrywio rhwng £250 a £2,000 gan ddibynnu ar lefel categori'r drosedd, gan godi i uchafswm o £4,000 am ail drosedd.
12. Mae Tabl 1 yn dangos cosbau categorïau troseddau gwahanol o dan gynllun FAP presennol y CFP am drosedd gyntaf ac am ail drosedd.

Tabl 1: Categorïau troseddau presennol y CFP a'u cosbau

Categori Trosedd	Lefelau'r Gosb	Trosedd Gyntaf	Ail Drosedd	Troseddau wedi hynny
Marchnata	1	£250	£500	Ei herlyn
Amrywiol	2	£500	£1,000	
Technegol - Gêr	3	£1,000	£2,000	
Technegol - Dalfa	3	£1,000	£2,000	
Adfer	3	£1,000	£2,000	
Rheoli	3	£1,000	£2,000	
Mynediad	4	£2,000	£4,000	

13. Ni chaiff mwy na 2 FAP eu rhoi am yr un categori o drosedd a bydd yr ail FAP yn fwy na'r gyntaf. Os cyflawnir trosedd arall yn yr un categori, caiff yr achos ei atgyfeirio ar gyfer ei erlyn.

14. Wrth bennu'r gosb ariannol a lefel y gosb sy'n perthyn i bob categori o drosedd, ystyrir cosbau'r llysoedd yn y gorffennol ond gobeithir hefyd y bydd yn cymell troseddwr i benderfynu yn erbyn atgyfeirio'r achos i'r llysoedd.
15. Mae'r hysbysiad cosb a roddir mewn cysylltiad â throsedd benodol yn dibynnu ar natur y drosedd a'r ffactorau a ddefnyddir i ystyried a ddylid cynnig cosb. Os gwelir yn ystod archwiliad fod mwy nag un drosedd wedi'i chyflawni a bod y gosb yn fwy na £4,000, caiff y mater ei atgyfeirio'n awtomatig i'w erlyn yn y llysoedd. Fel arfer, bydd hyn yn golygu, am fod ei gwch wedi'i feddiannu i gasglu tystiolaeth, fod y pysgotwr yn colli'i enillion. Hefyd bydd yr angen i fynd i'r llys yn effeithio ar ei enillion. Bydd cychod tramor sy'n cael eu meddiannu ar gyfer yr erlyniad yn debygol o gollu mwy o enillion na chychod y DU.

Adran C: Estyn y Cynllun FAP i Ddeddfwriaeth Pysgodfeydd Domestig

Pam newid?

16. Yng Nghymru, pan gafodd y cynllun FAP ei gyflwyno yn 2008, nid oedd gennym y pwerau angenrheidiol i gynnig FAP am droseddau pysgodfeydd domestig. O'r herwydd, yr unig ffordd sydd gennym i ddelio â throseddau pysgodfeydd domestig yw trwy roi rhybuddion llafar, rhybuddion ysgrifenedig neu erlyniad troseddol trwy'r llysoedd. Fodd bynnag, mae Adran 294 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi'r pwerau inni roi FAP am droseddau yn erbyn deddfwriaeth pysgodfeydd domestig.
17. Mae'n hanfodol bod unrhyw drefn ar gyfer delio â throseddau domestig yn gyson â threfniadau gweinyddiaethau eraill y DU ac â'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer delio â throseddau'r CFP. Rydym am sicrhau hynny trwy barhau i weithredu ar sail risg a sicrhau mai dim ond y troseddau mwyaf difrifol nad ydyn nhw'n addas ar gyfer FAP a erlynir trwy'r llysoedd.
18. Bydd y drefn newydd a gynigir yn arwain at system gosbi dryloyw ar gyfer holl droseddau pysgodfeydd Cymru, a bydd Prif Swyddog y Bysgodfa yn cael cynnig FAP am rai troseddau'n gyflym ac yn effeithiol heb fod angen mynd i'r llys.
19. Mae'n anodd amcangyfrif yn fanwl faint o enillion a gollir oherwydd anallu i bysgota gan y bydd hynny'n dibynnu ar natur y pysgota. Fodd bynnag, credwn o dan rai amgylchiadau y gellid lleihau'r colledion trwy gynyddu'r terfyn uchaf ar gyfer cynnig FAP i £10,000 er enghraifft, lle gwelir mewn ymchwiliad bod grŵp o fân-droseddau wedi'u cyflawni. Gallai hynny gynnig manteision eraill i bysgotwyr, fel gostwng costau cyfreithiol ac osgoi erlyniad troseddol.

Crynodeb o'r newidiadau a gynigir

20. Rydym yn cynnig dau brif newid i'r cynllun FAP:

- Estyn y cynllun FAP presennol i gynnwys troseddau pysgodfeydd domestig (gweler Atodiad 2)

- Cynyddu'r FAP uchaf am droseddau'r CFP a domestig o £4,000 i £10,000 (gweler Adran C.31 - 35).

21. Byddwn am gadw'r prif feini prawf yr ydym yn seilio'n penderfyniadau i gynnig FAP arnyn nhw (gweler Adran B.7).

22. A byddwn am gadw'r broses gwneud penderfyniadau gorfodi fel ag y mae (gweler adran B.5 - 13)

Sut y caiff y cynigion eu rhoi ar waith?

23. Mae'r Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol) (Hysbysiadau Cosb) 2008 (OS 2008/984) eisoes yn darparu ar gyfer cynllun FAP am fân-droseddau pysgodfeydd y CFP. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, y bwriad yw diddymu Gorchymyn 2008 a rhoi yn ei le orchymyn sy'n estyn y cynllun i gynnwys tramgwyddau yn erbyn deddfwriaeth pysgodfeydd domestig. Y bwriad yw gweld y Gorchymyn newydd sy'n cwmpasu troseddau'r CFP a domestig, yn dod i rym yng Ngwanwyn 2019.

24. O dan y trefniadau newydd, caiff FAP ei chynnig i bysgotwr o dan rai amgylchiadau yn lle erlyniad troseddol pan dorrir deddfwriaeth pysgodfeydd domestig. Ni châi FAP ei chynnig oni bai bod y dystiolaeth bod y drosedd wedi'i chyflawni o safon foddhaol.

Ar bwy y bydd y cynigion hyn yn effeithio?

25. Bydd y cynigion yn effeithio ar bob pysgotwyr fydd yn torri'r cyfreithiau perthnasol. Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru fydd yn gweinyddu'r cynllun ac yn parhau i gynnal eu gweithgareddau gorfodi fel ag ar hyn o bryd. Bydd MEOs yn ymchwilio i droseddau honedig ac yn casglu dystiolaeth amdanynt, gan gyflwyno'r dystiolaeth i Brif Swyddog y Bysgodfa gydag argymhelliad i roi hysbysiad cosb lle bo hynny'n gymwys os oes ganddynt dystiolaeth bod y person dan sylw wedi cyflawni trosedd pysgodfeydd.

Pa droseddau domestig y bydd y cynllun yn effeithio arnynt?

26. Caiff yr holl droseddau pysgodfeydd môr domestig eu cynnwys yn y cynllun FAP newydd (gweler y rhestr lawn o droseddau pysgodfeydd môr domestig yn Atodiad 2).

27. Er mwyn ymgorffori'r troseddau domestig, rydyn ni'n cynnig estyn y rhestr bresennol yn Nhabl 1 o 7 categori i 13 o gategoriâu - gweler Tabl 2 isod.

Tabl 2: Categoriâu troseddau presennol ac arfaethedig a'u cosbau

Categori / Trosedd	Lefel y Gosb	Trosedd Gyntaf	Ail Drosedd	Troseddau wedi hynny
Categoriâu troseddau presennol y CFP				
Troseddau marchnata	1	£250	£500	

	Troseddau amrywiol	2	£500	£1,000	
	Troseddau mesurau (gêr) cadwraeth technegol	3	£1,000	£2,000	
	Troseddau mesurau (dalffa) cadwraeth technegol	3	£1,000	£2,000	
	Troseddau adfer stoc	3	£1,000	£2,000	Eu herlyn
	Troseddau rheoli (gan gynnwys Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig a throseddau trwyddedau'r DU)	3	£1,000	£2,000	
	Troseddau'n ymwneud â mynediad	4	£2,000	£4,000	
	Categoriâu troseddau domestig y cynigir eu cynnwys yn yr estyniad				
	Troseddau pysgota anghyfreithlon, heb ei reoleiddio a heb ei adrodd	4	£2,000	£4,000	
	Troseddau am ddal pysgod sy'n rhy fach (UE, y DU, Cymru)	2	£500	£1,000	
	Troseddau Mynediad i Lannau Cymru	3	£1,000	£2,000	
	Troseddau mesurau (dalffa) cadwraeth technegol glannau Cymru	2	£500	£1,000	
	Troseddau mesurau (gêr) cadwraeth technegol glannau Cymru	2	£500	£1,000	
	Troseddau trwyddedau glannau Cymru	1	£250	£500	

28. Mae Tabl 2 yn dangos categorïau troseddau presennol y CFP a'r cosbau am gyflawni troseddau am y tro cyntaf a'r ail dro, ac mae'n dangos hefyd y categorïau troseddau domestig a gynigir.

29. Bydd unrhyw FAP a gynigir yn ystyried categori'r drosedd, lefel ei chosb a nifer y FAPs sydd wedi'u rhoi am droseddau yn yr un categori.

30. Yn unol â chynllun presennol y CFP, ni chaiff FAP ei chynnig am y troseddau canlynol a fydd yn cael eu hatgyfeirio'n syth i'w hystyried gan y llysoedd:

- peidio â chydymffurfio â gofynion yr MEO neu ei rwystro rhag eu cyflawni
- ymosod ar yr MEO neu'r sawl sy'n ei helpu, neu eu bygwth
- troseddau yn erbyn stociau o dan fesurau arbennig neu gynllun adfer neu reoli. Os nad oes cosb bellach yn gymwys, caiff trwydded y pysgotwr ei hatal yn awtomatig.
- cyflawni'r un drosedd am y trydydd tro neu fwy.

Cynyddu terfyn uchaf y FAP

31. Rydym yn cynnig cynyddu'r FAP fwyaf a ganiateir am drosedd CFP a domestig o £4,000 i £10,000 cyn bod angen atgyfeirio'r achos i'r llysoedd.

32. Os gwelir bod yr enillion ariannol (sy'n gysylltiedig â'r drosedd neu'n ganlyniad iddi) yn fwy na lefel y gosb, dyblir y gosb a gynigir fesul gwerth y gosb sylfaenol berthnasol (£250, £500, £1,000 neu £2,000) tan y bydd gwerth y gosb yn fwy na gwerth yr enillion ariannol a welwyd.
33. Gallai'r gosb a gynigir fod cymaint â £10,000. Os yw'r enillion ariannol yn fwy na £10,000 neu os bernir bod yr enillion ariannol mewn cysylltiad â'r drosedd o natur ddifrifol, ni chaiff FAP ei chynnig ac atgyfeirir yr achos i'r llysoedd.
34. Os gwelir bod mwy nag un drosedd wedi'i chyflawni, caiff yr enillion ariannol eu hystyried unwaith mewn cysylltiad â'r holl droseddau. Os bydd yr enillion ariannol eisoes wedi'u hystyried wrth gyfrif y gosb, cynigir y gosb sylfaenol berthnasol am y troseddau sy'n weddill cyn belled nad yw eu gwerth gyda'i gilydd yn fwy na £10,000.
35. Caiff y gosb weinyddol ariannol ei chynyddu i'r lefel nesaf sydd ar gael os bydd y personau atebol y cynigir cosb iddynt wedi cael eu cosbi am yr un categori o drosedd, cyn belled nad yw eu gwerth gyda'i gilydd yn fwy na £10,000.

Beth fydd effaith ariannol y drefn newydd?

36. Mae delio â throseddau pysgodfeydd yn y llysoedd yn gallu golygu dirwyon a chostau gwerth degau o filoedd o bunnau. A gall troseddwyr wynebu colledion ariannol hefyd am nad ydynt yn cael pysgota. Trwy gyflwyno FAP am droseddau domestig, disgwylir gweld lleihau'r amser a dreulir gan droseddwyr a gorfodwyr a'u costau trwy:

- Leihau'r amser a gollir wrth orfod mynd i'r llys;
- Leihau'r ffioedd a delir i gyfreithwyr am ymddangos yn y llys;
- Leihau'r dirwyon a delir i'r llys o gael y troseddwr yn euog;
- Datrys yr achos a fyddai wedi mynd i'r llys yn gynt;
- Leihau'r baich gweinyddol ar yr MEO;

Disgwylir i'r cynllun felly naill ai arbed arian neu fod yn niwtral o ran ei gostau.

Adran D: System Dalu ac Atebolwydd Cyd ac Unigol

Sut mae'r broses dalu'n gweithio

37. Nid ydym yn cynnig newid y broses dalu ar gyfer FAP.
38. Unwaith y caiff y penderfyniad ei wneud i roi hysbysiad cosb, caiff ei anfon at y troseddwr. Caiff y troseddwr 28 diwrnod calendr i benderfynu a yw am dderbyn a thalu'r gosb.
39. Bydd hysbysiad y gosb yn disgrifio amgylchiadau'r drosedd a lefel y gosb weinyddol a gynigir. Caiff yr hysbysiadau cosb naill ai eu danfon â llaw neu eu hanfon â phost cofrestredig a byddant yn nodi sut y dylai'r taliad gael ei wneud

os derbynnir y cynnig o gosb. Ni chaniateir talu ag arian sychion, ond byddai trosglwyddiad BACS, siec neu daliad â cherdyn credyd yn dderbyniol.

40. Bydd yn rhaid clirio'r arian cyn pen 28 diwrnod calendr, felly dylai'r person sy'n talu gadw hynny mewn cof.
41. Gellir diddymu hysbysiad cosb cyn neu ar ôl talu'r gosb os gwelir bod gwall technegol ynddo neu os cafodd ei gyhoeddi trwy gamgymeriad neu ei roi i'r person anghywir. Os caiff hysbysiad cosb ei ddiddymu, caiff unrhyw gosb a dalwyd ei had-dalu'n llawn ond os yw'r amgylchiadau'n gofyn am hynny, caiff hysbysiad cosb newydd ei roi.
42. Trwy dalu'r gosb o fewn 28 diwrnod calendr, ni fydd y person y rhoddwyd yr hysbysiad cosb iddo bellach yn atebol am gael ei erlyn am y drosedd. Caiff derbynneb ei rhoi iddo a chedwir cofnod o'r gosb. Efallai y bydd gwerth iddo fel tystiolaeth yn y dyfodol. Os na chaiff y gosb ei thalu mewn pryd, caiff y drosedd ei hatgyfeirio ar gyfer ei herlyn yn y ffordd arferol.

Atebolrwydd Cyd ac Unigol

43. Nid ydym yn cynnig newid y system bresennol o ran atebolrwydd cyd ac unigol.
44. O dan y gyfraith bresennol, mae'r perchennogion, meistri a siartwyr yn atebol ar y cyd ac yn unigol am droseddau pysgodfeydd. Yn hytrach na chael eu herlyn, gellid rhoi hysbysiad cosb i'r bobl hynny a byddem yn gallu derbyn taliad gan unrhyw un ohonyn nhw dros ac ar ran y lleill. Mewn geiriau eraill, os oes hysbysiad cosb o £1,000 wedi'i roi i'r meist'r a'r perchennog mewn perthynas â throsedd y maent yn atebol ar y cyd ac yn unigol amdani, ni fyddem yn disgwyl i'r meist'r a'r perchennog dalu £1,000 yr un. Yn hytrach, os gwnaiff y perchennog dalu £1,000, byddwn yn ystyried bod yr hysbysiad cosb i'r meist'r hefyd wedi'i dalu.
45. Pan fydd cosb am drosedd ar y cyd wedi'i thalu gan naill ai'r perchennog, y meist'r neu'r siartwr, anfonir hysbysiad ysgrifenedig at y lleill i ddweud bod y taliad mewn perthynas â'r drosedd dan sylw wedi'i dalu a'n bod yn ystyried bod eu cosb wedi'i thalu. Fodd bynnag, gan y gall talu taliad effeithio ar y person y rhoddwyd yr hysbysiad iddo (e.e. bydd cael cosb unwaith yn cynyddu'r gosb nesaf am dramgwyddo neu os nad yw am dalu'r FAP), mae angen amod i ganiatáu i berson wrthwynebu'r broses. Gall y parti arall ysgrifennu o fewn 28 diwrnod i ddweud ei fod yn gwrthwynebu talu'r gosb.
46. Pan ddigwydd hyn, ni ystyrir bod cosb y person dan sylw wedi'i thalu, ac o ganlyniad, os bydd ei hysbysiad cosb yn dal heb ei dalu ar ddiwedd y cyfnod o 28 diwrnod, caiff ei achos ei atgyfeirio ar gyfer ei erlyn yn y ffordd arferol. Ni fydd hyn yn effeithio ar y rheini sydd wedi talu neu nad ydynt yn gwrthwynebu inni ystyried bod eu cosb wedi'i thalu.

47. Os na cheir y person dan sylw yn euog yn y llys, caiff cofnodion yr achos eu tynnu o'r gronfa ddata ac ni châi ei ystyried fel trosedd flaenorol mewn penderfyniadau yn y dyfodol. Lle medrwn, byddwn am ddod â throeddau neu gosbau blaenorol at sylw'r llysoedd e.e. wrth ddedfrydu ar gyfer trosedd arall.

Atodiad 1

Cosbau Gweinyddol Ariannol Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Enw _____

Cyfeiriad _____

Sefydliad (os yw'n berthnasol) _____

Rhif Ffôn. _____

Cyfeiriad E-bost. _____

Beth yw'ch cysylltiad â'r diwydiant pysgota?-

Cwestiynau:

1. Ydych chi'n cytuno bod cynnig FAPS am droseddau domestig hefyd yn lle mynd â'r troseddwr i lys, yn bodloni'r egwyddorion gwreiddiol a ddisgrifir yn Adran B.3?

Ydw Nac ydw

2. Ydych chi'n credu bod y meini prawf rydym yn eu defnyddio i ystyried a ddylai FAP gael ei chynnig am droseddau domestig neu beidio yn rhai priodol (gweler Adran B.7)?

Ydw Nac ydw

3. A ydych yn cytuno:

(i) bod y rhestr o droseddau difrifol y cânt eu hatgyfeirio'n syth i lys e.e. rhwystro, yn gyflawn (gweler Adran B.9)?

Ydw Nac ydw

(ii) bod lefel y gosb a gynigir ar gyfer pob categori o droseddau yn briodol (Gweler Tabl 2)?

Ydw Nac ydw

(iii) bod y cosbau ariannol yn ddigon i atal pobl rhag troseddu?

Ydw Nac ydw

(iv) bod y gosb am ail drosedd yn ddwbl y gosb am y drosedd gyntaf?

Ydw Nac ydw

(vi) â'r ffordd rydym wedi categorioeddio troseddau (gweler Tabl 2)?

Ydw Nac ydw

3. Ydych chi o blaid cynyddu'r gosb fwyaf rydym yn cael ei chynnig i droseddwr cyn ei atgyfeirio i lys i £10,000 e.e. pan fydd y troseddwr wedi troseddu sawl gwaith? Neu a fyddai'n well gennych gadw'r system bresennol ac atgyfeirio trosedd ag iddi gosb o fwy na £4,000 i'r llysoedd?

Ydw

Nac ydw

4. A yw'r system a gynigir yn hawdd ei deall?

Ydw

Nac ydy

5. Ydych chi'n credu y bydd y system a gynigir yn gweithio'n dda?

Ydw

Nac ydw

Rhowch eich rhesymau.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr Aseiad Rhannol o'r Effaith Rheoleiddiol (amgaeedig)?

7. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, neu os gallwch gynnig gwelliannau, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

9. Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.

Atodiad 2:**Categoriâu Troseddau a Throseddau Presennol ac Arfaethedig**

Bydd y rhestr hon ar gael ar-lein a chaiff ei diweddarau yn ôl y gofyn.

Categori 1: Troseddau marchnata	
	Labelu
	Graddio - maint
	Graddio - ffresni
	Marchnata - troseddau eraill
Categori 2: Troseddau amrywiol	
	Dalfeydd - troseddau eraill (gan gynnwys troseddau cwotâu rheoleiddio sgil-ddalfeydd)
	Methiant i arddangos llythrennau a rhifau porthladd ar gwch neu long neu fad neu mewn Cronfa Ddata Gweithgarwch Pysgodfeydd
	Methiant i arddangos llythrennau a rhifau porthladd ar offer
	Methiant i gynhyrchu cynllun storffeydd pysgod neu dablau gwagleoedd neu gynllun stowio
	Methiant i ddarparu ysgol fyrddio
	Methiant i ganiatáu defnyddio cyfarpar cyfathrebu
	Defnydd anghyfreithiol neu fethiant i ddefnyddio bwiau marcio
	Methiant i hysbysu am gêr (os yw'n ddarostyngedig i gyfundrefn rheoli ymdrech)
	Methiant i adfer neu hysbysu am gêr a gollwyd
Categori 3: Troseddau mesurau (gêr) cadwraeth technegol	
	Pysgota mewn ardaloedd dan gyfyngiadau - troseddau eraill
	Gêr a stowwyd yn anghywir
	Maint y rhwyllau – canran ofynnol o'r rhywogaeth darged – gêr llusg
	Maint y trawst
	Atodiad anghyfreithiol
	Rhuglwr ochr isaf anghyfreithiol
	Rhuglwr ochr uchaf anghyfreithiol – math A
	Rhuglwr ochr uchaf anghyfreithiol - math B
	Bag cryfhau anghyfreithiol
	Darn rhuglo anghyfreithiol
	Rhaff bysgod anghyfreithiol
	Strap codi anghyfreithiol
	Strap cylch anghyfreithiol
	Llabed anghyfreithiol
	Rhaff gryfhau anghyfreithiol

	Torcét anghyfreithiol
	Cario rhwydi sy'n rhy fach eu maint
	Rhwydi drysu neu gêr goddefol - cario neu ddefnyddio neu hyd neu faint y rhwyllau
	Panel rhwylli sgwâr anghyfreithiol, neu fethiant i ddefnyddio panel rhwylli sgwâr
	Gormod o rwylli yn y cylchedd
	Treillrwyd neu geometreg
	Trwch y llinyn
	Troseddau offer – arall
	Panel rhwylli sgwâr – methiant i ddefnyddio panel rhwylli sgwâr
	Panel rhwylli sgwâr – rhwylli rhy fach eu maint
	Panel rhwylli sgwâr – dimensiwn
	Panel rhwylli sgwâr – safle yn y treillrwyd
	Geometreg y treillrwyd
	Cyfyngiadau treillrwyd dau rig
	Treillio anghyfreithiol am gregyn bylchog
	Troseddau eraill yng nghyfraith y DU mewn perthynas â gêr
Categori 4: Troseddau mesurau (dalfa) cadwraeth technegol	
	Mynd i'r blwch mecryll gyda dalfa heb ei datgan o fecryll (gweler ECAD)
	Methiant i gyrraedd 95% o bysgod cregyn dwygragennog wrth bysgota â threillrwyd
	Dal penwaig at ddefnydd diwydiannol
	Glanio cregyn bylchog a dorrwyd allan neu gynffonau cimychiaid
	Pysgota am neu gadw rhywogaethau - heb gwota neu ar ôl defnyddio'r cwota
	Prosesu pysgod yn anghyfreithiol
	Eog a sewin
	Gofynion cyfansoddiad dalfa mewn rhwyd ddrysu
	Cadw draenogiaid môr sy'n dod o ardal silio draenogiaid môr
	Glanio crafangau cimychiaid
Categori 5: Troseddau adfer stoc	
	Methiant i ddal 30 y cant o gimychiaid Norwy ym Môr y Gogledd (80 i 109 mm)
	Methiant i ddal cyfansoddiad dalfa (110-119 mm) ar gyfer chwitlyn glas
	Cario neu ddefnyddio gêr (100 i 119 mm)
	Dalfa penfreision sy'n fwy na 20 y cant (32 i 119 mm)
	Panel pen blaen anghyfreithiol (70 i 99 mm)
	Panel rhwylli sgwâr anghyfreithiol (70 i 99 mm)
	Trwch y llinyn
	Cylchedd rhy fawr i'r rhwyd (70 i 89) (90+)

	Strwythurau gêr (llynynnau dwbl, pen a gwaelod hafal mewn rhwyll bedairochrog)
	Treillrwyd drawst - cyfyngiadau technegol
	Rhwydi gosod - mwy na 30 y cant o benfreision (ystod maint y rhwyllau yn llai na neu'n hafal i 139 mm)
	Pysgota anghyfreithiol mewn blwch penfreision dan gyfyngiadau neu gaeedig
	Methiant i hysbysu am gêr ar gyfer cyfnod rheoli
	Methiant i hysbysu am gêr penodol ar gyfer pob trip
	Pysgota am ragor o amser na'r dyddiau a awdurdodwyd
	Gêr heb ei awdurdodi (cludo neu ddefnyddio)
	Methiant i hysbysu o fynd i mewn neu allan o ardal adfer penfreision
	Glanio mwy na'r maint a ganiatawyd mewn porthladdoedd nas dynodwyd (mwy na 2 dunnell)
	Troseddau eraill mewn cysylltiad â phenfreision
	Cadw mwy na 100kg o rywogaethau moroedd dwfn heb ganiatâd
	Methiant i gofnodi ymdrech yn y llyfr log
	Glanio mwy na 100 kg o rywogaethau moroedd dwfn mewn porthladd nas dynodwyd
	Gwaharddiad ar dynnu esgyll siarcod ar y môr
	Gwaredu cyrff siarcod
	Mynd y tu hwnt i'r gymhareb ddamcaniaethol o 5 y cant o esgyll siarcod
	Methiant i gadw cofnodion am esgyll siarcod
	Torri'r gofynion hysbysu - glanio esgyll siarcod
	Glanio rhywogaeth cynllun adfer mewn porthladd nas dynodwyd
	Methiant i feddu ar gynllun stowio neu feddu ar gynllun stowio anghywir
	Methiant i stowio rhywogaeth cynllun adfer ar wahân
	Dalfa cegdduon mwy na 20 y cant (treillrwydi nad ydynt yn rhai trawst, 55 i 99 mm)
	Dalfa cegdduon mwy na 5 y cant (treillrwydi trawst, 55 i 99 mm)
	Trwch y llinyn
	Mwy na'r nifer a ganiateir o rwylli yn y cylchedd
	Panel pen blaen anghyfreithiol
	Gêr llusg heb ei awdurdodi (cario neu defnyddio gêr) (cegdduon)
	Gêr gosod heb ei awdurdodi (cario neu defnyddio gêr) (cegdduon)
	Glanio mwy na'r maint a ganiateir mewn porthladd nas dynodwyd (cegdduon)
	Methiant i hysbysu o fynd i mewn neu allan o ardal sy'n sensitif yn fiolegol
	Glanio mwy na 10 tunnell o rywogaethau pelagig mewn porthladd nas dynodwyd
	Methiant i roi hysbysiad cywir 4 awr ymlaen llaw cyn glanio
	Methiant i bwysu pysgod ar ôl glanio
	Camgofnodi neu danddatgan rhywogaethau pelagig
	Pysgota am ragor o amser na'r dyddiau a awdurdodwyd

Categori 6: Troseddau rheoli (gan gynnwys Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig a throseddau trwyddedau'r DU)	
	Torri amodau caniatâd y drwydded
	Methiant i symud ardal bysgota (trothwy wedi'i basio mewn dwy helfa)
	Methiant i gario llyfr log
	Methiant i lenwi llyfr log
	Methiant i lenwi datganiad glanio
	Cofnod anghywir neu fethiant i gofnodi rhywogaethau - llyfr log (gan gynnwys yr hyblygrwydd o 10 y cant)
	Cofnod anghywir neu fethiant i gofnodi rhywogaethau - datganiad glanio
	Cofnod anghywir neu fethiant i gofnodi lleoliad y ddalfa
	Cofnod anghywir neu fethiant i gofnodi math o gêr
	Mesuriadau gêr anghywir
	Newid anghyfreithiol i'r llyfr log
	Methiant i gofnodi manylion trawslwytho neu gyflwyno datganiad trawslwytho
	Methiant i gyflwyno llyfr log neu daflen log
	Methiant i gyflwyno datganiad glanio
	Cyflwyno llyfr log yn hwyr
	Cyflwyno datganiad glanio yn hwyr
	Cofnod anghywir neu fethiant i gofnodi ymdrech (Y Dyfroedd Gorllewinol ac ardaloedd adfer)
	Methiant i ddarparu nodiadau gwerthu
	Nodiadau gwerthu anghywir
	Cyflwyno nodiadau gwerthu yn hwyr
	Cofnod anghywir neu fethiant i ddarparu dogfennau cludo
	Cofnod anghywir neu fethiant i gyflwyno datganiad meddiannu
	Methiant i gynnal dyfais olrhain drwy loeren sy'n gwbl weithredol, neu fethiant i gael dyfais o'r fath ar fwrdd y llong
	Methiant i ddarparu adroddiadau safle mor aml ag sy'n ofynnol
	Darparu gwybodaeth anwir i Ganolfan Monitro Pysgodfeydd
	Ymyrryd â throsglwyddiad adroddiadau safle drwy loeren
	Mynd i'r môr heb ganiatâd
	Methiant i ddarparu adroddiadau safle â llaw pan ofynnir amdanynt
	Methiant i ddangos trwydded neu awdurdodiad pysgota dilys yr UE
	Methiant i anfon adroddiad 'hwyllo i mewn i borthladd' neu anfon adroddiad anghywir
	Methiant i roi hysbysiad ymlaen llaw o gyrraedd porthladd neu roi hysbysiad anghywir
	Trawslwytho yn y môr (dyfroedd yr UE)
	Methiant i gyflwyno data llyfr log trwy gyfryngau electronig
	Methiant i gyflwyno data llyfr log trwy gyfryngau electronig yn ddyddiol neu ar adegau penodedig
	Methiant i gyflwyno datganiad glanio trwy gyfryngau electronig

	Methiant i gyflwyno datganiad glanio trwy gyfryngau electronig o fewn 24 awr ar ôl glanio
	Methiant i gyflwyno datganiad trawslwytho trwy gyfryngau electronig
	Methiant i gadw neges ddychwel
	Methiant i gadw data e-log tan i'r datganiad glanio gael ei gyflwyno
	Methiant i drosglwyddo adroddiadau pysgota maniwal bob dydd neu ar adegau penodedig
	Gadael y porthladd heb ganiatâd gydag e-log nad yw'n gweithio
	Methiant i gyflwyno nodyn gwerthu trwy gyfryngau electronig
	Methiant i gyflwyno nodyn gwerthu trwy gyfryngau electronig o fewn 24 awr
	Methiant i gyflwyno datganiad meddiannu trwy gyfryngau electronig
	Methiant i gyflwyno datganiad meddiannu trwy gyfryngau electronig o fewn 24 awr
	Methiant i gyflwyno hysbysiad ymlaen llaw trwy gyfryngau electronig
	Troseddau eraill sy'n ymwneud ag adrodd yn electronig
	Trawslwytho rhywogaeth cynllun adfer heb sylwedydd pwyso neu reoli
	Trawslwytho rhywogaeth cynllun adfer belagig heb hysbysiad
	Glanio rhywogaeth belagig a drawslwythwyd heb ei phwyso mewn porthladd nas dynodwyd
	Troseddau'n ymwneud â llyfr log - arall
	Pysgota heb awdurdod trwydded
	Ddim yn cario trwydded ddilys
	Ddim yn cario papurau cofrestru dilys
	Methiant i gofrestru cwch sy'n pysgota i wneud elw
	Prynwr cofrestredig - methiant i gydymffurfio ag amodau'r gofrestr
	Prynwr cofrestredig - methiant i gadw neu ddangos cofnodion
	Prynwr heb ei gofrestru
	Prynu pysgod o gwch nad yw wedi'i gofrestru
	Gwerthwr cofrestredig - methiant i gydymffurfio ag amodau'r gofrestr
	Gwerthwr cofrestredig - methiant i gadw neu ddangos cofnodion
	Gwerthwr heb ei gofrestru
	Gwerthu pysgod o gwch nad yw wedi'i gofrestru
	Safle arwerthiant - methiant i gydymffurfio ag amodau'r gofrestr
	Pysgota ag injan sy'n fwy pwerus na'r hyn a nodir ar y drwydded
	Defnyddio injan sydd heb ei hardystio
	Methiant i ddarparu dogfennau ardystio
	Methiant i hysbysu am injan newydd/cyfnewid neu wedi'i haddasu
	Trosedd - amodau'r drwydded (fel blwch gosod cewyll)
	Trosedd - cwota'r DU (gan gynnwys pysgodfa sydd wedi'i chau i gychod o'r DU)
	Trosedd - cwota cwch (lle aed dros y cwota)
	Trosedd - amodau'r drwydded - porthladdoedd dynodedig (nid rhywogaethau adfer)

	Amodau'r drwydded - penddu (HKE), lleden fair (LEZ) neu gythraul y môr (ANF)
	Trwydded - troseddau eraill sy'n ymwneud â thrwyddedau
	Troseddau eraill yr CE - troseddau eraill
	Deddfwriaeth y DU - troseddau eraill

Categori 7: Troseddau'n ymwneud â mynediad	
	Pysgota anghyfreithlon o fewn terfynau pysgodfa Prydain - mynediad
	Pysgota anghyfreithlon o fewn y terfyn chwe milltir - dynodiad
	Pysgota anghyfreithlon o fewn y terfyn chwe milltir - dynodiad
	Pysgota anghyfreithlon yn y blwch mecryll (gweler ECCA)
	Pysgota anghyfreithlon yn y blychau penwaig/sgadan
	Pysgota anghyfreithlon ym mlwch corbenwaig arfordir y dwyrain
	Pysgota anghyfreithlon ym mlwch penwaig/sgadan y De Orllewin (Môr Celtaidd)
	Pysgota anghyfreithlon ym mlwch gogledd yr Alban
	Pysgota anghyfreithlon ym mlwch swtanod Norwy
	Pysgota anghyfreithlon yn y blwch lledod.
	Pysgota anghyfreithlon ym Môr Iwerddon (Cynllun Adfer Penfreision)
	Pysgota anghyfreithlon ym Môr y Gogledd (Cynllun Adfer Penfreision)
	Tramgwyddo'r mesurau adfer cegdduon
	Pysgota anghyfreithlon yn y blwch llymriod
	Pysgota anghyfreithlon o fewn y terfyn 12 milltir â threillong drawst
	Pysgota anghyfreithlon yn yr ardal gaeedig mewn amser real
	Pysgodfa gaeedig - cregyn bylchog
	Pysgota am ddraenogiaid môr yn ardal silio draenogiaid môr
	Llongau o Sbaen yn pysgota heb ganiatâd yn Nyfroedd y Gorllewin
	Llongau o Ffrainc yn pysgota heb ganiatâd yn Nyfroedd y Gorllewin
	Llongau o'r Iseldiroedd yn pysgota heb ganiatâd yn Nyfroedd y Gorllewin
	Llongau o Wlad Belg yn pysgota heb ganiatâd yn Nyfroedd y Gorllewin
	Llongau o'r Almaen yn pysgota heb ganiatâd yn Nyfroedd y Gorllewin
	Llongau o Ddenmarc yn pysgota heb ganiatâd yn Nyfroedd y Gorllewin
	Llongau o Sweden yn pysgota heb ganiatâd yn Nyfroedd y Gorllewin
	Llongau o Iwerddon yn pysgota heb ganiatâd yn nyfroedd y gorllewin
	Llongau o Ynysoedd Ffarøe yn pysgota heb drwydded
	Llongau o Norwy yn pysgota heb drwydded
	Pysgodfa heb drwydded - troseddau eraill
Y categorïau troseddau domestig y cynigir eu cynnwys yn y cynllun estynedig	
Categori 8: Pysgota anghyfreithlon, heb ei reoleiddio a heb ei adrodd	
	Methiant i roi hysbysiad ymlaen llaw

	Trawslwytho yn nyfroedd y gymuned (cwch o drydedd wlad)
	Methiant i gael tystysgrif dilysu dalfa (mewnforio)
	Targedu pysgod sy'n destun moratoriwm neu waharddiad yn anghyfreithlon
	Trawslwytho neu weithrediad anghyfreithlon â chwch IUU
	Gweithredu neu gyflenwi neu ddefnyddio yn anghyfreithlon gwch IUU a restrir gan y Gymuned
	Ffugio dogfennau neu ddefnyddio dogfennau wedi'u ffugio
	Symud llwythi o dan reolaeth yn anghyfreithlon
	Datgelu gwybodaeth gomisiynu gyfrinachol
Categori 9: Troseddau am ddal pysgod sy'n rhy fach (UE, y DU, Cymru)	
	Pysgod sy'n rhy fach - eu cadw neu eu storio neu cynnig eu gwerthu
	Crancod sy'n rhy fach
	Cimychiaid sy'n rhy fach
	Cregyn bylchog sy'n rhy fach
	Troseddau eraill yn y DU sy'n ymwneud â physgod sy'n rhy fach
Categori 10: Troseddau Mynediad i Gymru (Glannau)	
	Defnyddio treillrwydi a llusgrwydi'n anghyfreithlon mewn ardaloedd penodedig
	Cocosa anghyfreithlon, yn y nos
	Pysgota anghyfreithlon am gregyn bylchog - yn Ardal Benodedig Sgomer
	Pysgota anghyfreithlon mewn ardal sydd wedi'i chau am gyfnod dros dro
	Pysgota anghyfreithlon (y cwch yn rhy fawr)
	Defnyddio rhwydi sân Danaidd ac Angor yn anghyfreithlon
	Pysgota anghyfreithlon â gêr llusg mewn ardal benodedig
	Pysgota anghyfreithlon â rhwyd ddrifft mewn ardal benodedig
	Cocosa anghyfreithlon yn ystod tymor caeedig
	Pysgota anghyfreithlon am gregyn bylchog mewn ardal benodedig
	Injan osod anghyfreithlon (ardal neu amser penodedig)
	Defnyddio treillrwydi a rhwydi sân yn anghyfreithlon mewn ardal benodedig
Categori 11: Troseddau mesurau (dalfa) cadwraeth technegol Cymru (glannau)	
	Methiant i ailosod pysgod cregyn
	Pysgota anghyfreithlon am wichiaid (ac eithrio â llaw)
	Dal mwy na'r terfyn dyddiol o bysgodfeydd heb drwydded
Categori 12: Troseddau mesurau (gêr) cadwraeth technegol Cymru (glannau)	
	Treillrwydi trawst - hyd mwyaf
	Ystod maint y rhwyllau mewn rhwydi yn anghywir (nid treillrwydi na llawesrwydi)
	Gêr dal perdys/gorgimychiaid - adeiladwaith

	Llusgrwydo anghyfreithlon am folysgiaid dwygragennog
	Defnyddio offer heb ei gymeradwyo i bysgota am folysgiaid dwygragennog
	Methiant i glirio rhwydi gosod yn ôl y gofyn
	Gosod rhwydi gosod yn anghyfreithlon neu heb eu marcio
	Defnyddio Leiniau Gosod neu Nos yn anghyfreithlon (adeiladwaith neu ardal)
	Methiant i farcio'r gêr a chadw cewyll
	Defnyddio llusgrwydi/rhwydi sân o draeth yn anghyfreithlon (adeiladwaith neu amodau defnyddio)
	Gosod rhwydi gosod, pystrwydi a stoprwydi yn anghyfreithlon (adeiladwaith neu amodau defnyddio)
	Gosod rhwydi gosod a rhwydi drifft yn anghyfreithlon (adeiladwaith neu amodau defnyddio)
	MSR lleiaf unrhyw rwyd yng Nghilfach Tywyn
	Ystod maint y rhwyllau yn anghywir - gogledd (nid treillrwydi)
	Snagio
Categori 13: Troseddau'n ymwneud â thrwyddedau Cymru (glannau)	
	Pysgota heb drwydded am gimychiaid, cimychiaid coch, crancod, corgimychiaid a gwichiaid
	Cocosa yn Aber y Tair Afon heb drwydded neu heb gadw at amodau'r drwydded
	Pysgota heb drwydded neu heb gadw at amodau'r drwydded